

CERAMIC SERIES

JOSIE WALTER

by Phil Rogers




Photo by Mick Garland

It frightens me to think of it but I first met Josie Walter almost fourteen years ago. I had just opened my first workshop and she was coming to the end of her time on the studio pottery course at Chesterfield College of Art. I remember the occasion well. I was visiting a friend who happened to be on the same course as Josie and on the day in question there were six kilns being fired all at the same time, wood fired earthenware, gas and oil fired stoneware. Josie was firing her salt kiln and I remember it was raining. A grey cloud of smoke and salt fumes hung over the college yard suspended in the thick drizzle, while underneath — a frenzy of activity and excitement. I joined in and helped with the firing even though I was only a visitor for the weekend. Josie and I have been friends ever since.

In common with many potters Josie came to pottery by an unorthodox route. Initially an anthropologist following a degree from the University College London she then spent three years teaching Social Studies in a Leicestershire Secondary School. Press-ganged into taking one period of pottery a week she decided that an evening class would at least provide her with enough basic knowledge to stay one step ahead of the children. Two successive years attending the summer school at Loughborough Art College was enough to convince her that a full time course dealing in pottery and only pottery was what she wanted. Chesterfield's late and lamented studio Pottery Course provided exactly that.

Saltglazing was Josie's first fascination but a move to her first workshop in an old converted coaching Inn in the centre of Matlock, shared with John Gibson — a fellow pottery student from Chesterfield — meant that saltglazing was out of the question. An electric kiln, a dislike of oxidised stoneware and a desire to work with slips, much in the manner she was used to with her salted work, led her to the conclusion that a red bodied earthenware was the answer.

The early pots were decorated with slip trailing much in the great British tradition. I remember their richness of colour belied their electric fire and the trailing was relaxed and confident always well suited to the form. Soon, the trailing was used in combination with a paper resist technique that allowed the build up of layers of coloured slip whilst at the same time providing the opportunity for clean edges between the different areas of colour. The initial 'Toft' type slip trailing was replaced by a vast vocabulary of pictorial images, many related to the eventual purpose of the pot, i.e. the unfortunate victim of a pie or casserole. A large oval dish may have a plaice covering its inside, another a chicken or a shoal of herring. An arrogant and indignant Turkey, its feathers ruffled, lives on another huge oval dish while in our kitchen we have a heart shaped dish in the bottom of which are five herring wrapped in a paper parcel tied up with string. Each fish has a wry smile and a look of resignation as to its fate.

The Matlock workshop lasted seven years. A new landlord with redevelopment on his mind made the move to a new workshop inevitable...

The old Viyella mill outside Bonsall is home to an odd mixture of businesses. A car body sprayer, a printer and a knicker maker amongst others all share the building. The workshop is small, only 240 sq. ft., but, as is expected by anybody that knows Josie well, it is well organised. Surfaces are clean and all tools and equipment are in their correct places. There is no room for clutter.




Photo by Keith Morris

The efficient use of space and her allotted time in the workshop mean that Josie has quite a prolific output. The 12 cu. ft. electric kiln is filled and fired every 14 days or so. The pots are thrown on a home made momentum wheel, built while at college, and a small electric wheel is used for occasional turning. Josie likes to throw a kiln full of pots at one time and then take 10 days or so to assemble, decorate and finally raw glaze.

"I usually make a short run of one item so that I can vary the image on each. I do repeat images but rarely within the same firing. Images correspond to what's happening around me at the time — a visit to my parents on the coast, the cats, seasonal flowers, harvesting vegetables and so on."

The square and oval baking and serving dishes are thrown in two separate pieces at different times. The wall of the pot is thrown first and then put aside while the base is thrown as a flat disc. The wall is then lifted onto the base having been eased into its new shape and then the two are securely joined while both are still quite soft. Each dish represents a considerable investment in time and energy, the joining together and the subsequent decorating taking much longer than the original throwing of the two pieces. New shapes also include oval casseroles that involve the careful slicing and rejoining of the lid, and a rounder full bodied teapot. To make large numbers of pots that require assembling and then a complicated and extended process of decoration means that an organised and methodical approach is essential.

Recently there has been a new development in Josie's work. I cannot in truth call it a new direction because the materials and much of the subject matter remain. However, suddenly there is a new and exciting vitality in her decoration.

As if to complement the new, more energetic style, new life has been breathed into the subjects of Josie's decoration. Previously the images had been built up layer by layer using a system of paper stencils. A final layer of black slip would leave a black line around the image to separate it from the background and to add definition.

In her new work Josie has employed her considerable skill as a draughtswoman to a much greater extent. There is a confidence and freedom of execution that comes to someone fully in command of their chosen medium. She has an acute sense of observation and the gift of caricature that is never a 'cartoon' but yet manages to humanise the scowl of a chicken or the wistful, peering eye of a fish. There is no doubt that the chicken is angry, it dares you to come near at your peril, beak and claws ready to do battle. There's great humour here. It's not Disney though, there's a harder edge. For the chicken, survival is a serious business; for me, the expression on its face makes me laugh but we both know its eventual fate!

Presently Josie has difficulty making all the pots that are asked for. Her work is greatly in demand, not just in this country but also on the continent where she is a regular visitor to the huge potters' markets in Holland and France. Since 1988 she has been on the Council of Management of the Craft Potters Association and is currently its Vice-Chair.

She is also a fine teacher. I have seen her demonstrate to an audience of 200 and hold them in her hand as she makes her complicated decorative techniques understandable to even the novice.

This collection of recent work represents the beginning of a new phase in Josie's making career. Presently she is having a new workshop built at the bottom of the garden and as Tom, her and Jonathan's 10 year old son becomes more and more independent, the new workshop and the extra time will bring yet further exciting possibilities. I can personally vouch that having her pots around the kitchen make it a cheerier place to be. Mealtimes with guests become a pleasure as the slowly disappearing food provides a guessing game as to what may be appearing from underneath!



Photo by Keith Morris

GYFRES CERAMEG

JOSIE WALTER

gan Phil Rogers



Keith Morris

Mae meddwl am y peth yn fy nychryn i, ond fe gwrrdais i â Josie Walter bron i bedair blynedd at ddeg yn ôl. Roeddwn i newydd agor fy ngweithdy cyntaf ac roedd hithau yn tynnu ar derfyn ei chyfnod ar y cwrs crochenwaith stiwdio yng Ngholeg Celf Chesterfield. Rwy'n cofio'r achlysur yn dda. Roeddwn i'n ymweld â chyfaill a oedd yn digwydd bod ar yr un cwrs â Josie ac ar y diwrnod arbennig hwnnw roedd chwe odyn yn cael eu tanio ar yr un pryd, odynau crochenwaith clai yn cael eu tanio â choed, odynau crochenwaith caled yn llosgi nwy ac olew. Roedd Josie yn tanio ei hodyn halen ac rwy'n cofio ei bod yn glawio. Roedd cwmwl llwyd o fwg a tharth halen yn hofran uwchlaw buarth y coleg gan hongian yn y glaw mân trwchus, tra oedd prysurdeb a chyffro gwylt yn digwydd islaw. Ymunais yn y gweithgarwch a rhoi help llaw gyda'r tanio, er mai dim ond ymwylydd am y penwythnos oeddwn i. Rydw i a Josie wedi bod yn gyfeillion byth ers hynny.

Fel yn achos llawer o grochenyddion eraill daeth Josie at grochenwaith ar hyd llwybr anarferol. Anthropolegydd oedd hi ar y cychwyn ac ar ôl graddio yng Ngholeg Prifysgol Llundain, treuliodd dair blynedd yn dysgu Astudiaethau Cymdeithasol mewn Ysgol Uwchradd yn Swydd Caerlŷr. Pan fu'n rhaid iddi gymryd un gwers crochenwaith bob wythnos, penderfynodd y byddai mynd i ddosbarth nos o leiaf yn rhoi digon o wybodaeth sylfaenol iddi allu cadw un cam o flaen y plant roedd hi'n eu dysgu. Bu mynchy u ysgol haf yng Ngholeg Celf Loughborough ddwy flynedd yn olynol yn ddigon i'w hargyhoeddi mai'r hyn roedd arni ei angen oedd cwrs amser llawn mewn crochenwaith a dim byd arall. Dyna'n union gafodd hi ar y Cwrs Crochenwaith yn Chesterfield sydd ysywaeth wedi peidio â bod erbyn hyn.

Gwydredd halen aeth â bryd Josie ar y cychwyn, ond pan symudodd i'w gweithdy cyntaf yn un o hen dafarnau'r goets fawr oedd wedi ei haddasu i'r pwrrpas yng nghanol Matlock gyda John Gibson, un o'i chyd-fyfyrwyr crochenwaith yn Chesterfield, roedd tanio gwydredd halen allan o'r cwestiwn. Arweiniwyd hi gan odyn trydan, atgasedd tuag at grochenwaith caled wedi ei ocsideiddio ac awydd i weithio gyda slipiau, mewn modd digon tebyg i'r hyn roedd hi wedi arfer ei wneud gyda'i gwaith gwydredd halen, i'r casgliad mai defnyddio clai llestri pridd coch oedd yr ateb.

Roedd ei photiau cynnar wedi eu haddurno â llinellu slip yn bur debyg i'r traddodiad Prydeinig enwog. Cofiaf bod cyfoeth eu liw fel pe'n gwadu'r tanio trydan ac roedd y llinellu'n rhwydd a hyderus a bob amser yn cydweddu â'r ffurf. Yn fuan, defnyddiwyd y llinellu ar y cyd â thechneg gwrthiannu papur a oedd yn galluogi i haenau o slip liw gael eu defnyddio, tra ar yr un pryd yn caniatâu ymylon glân rhwng y gwahanol dameidiau o liw. Cafodd y math cychwynnol o linellu 'Toft' ei ddisodli gan eirfa helaeth o ddelweddu darluniadol, llawer ohonynt yn dwyn perthynas â phwrrpas terfynol y llestr, hynny yw, y creaduriaid antffodus fyddai yn y bastai neu'r caserol. Gall dysgl hirgron fawr fod â lleden yn gorchuddio'r tu fewn iddi, a chyw iâr neu haig o benwaig mewn un arall. Mae twrci balch a dicllon a'i bluf ar chwâl, yn ymddangos ar ddysgl hirgron anferth arall, ac yn ein cegin mae gennym ddysgl ar ffurf calon gyda phum pennog wedi eu lapio mewn parsel papur wedi ei rwymo â llinyn ar ei gwaelod. Ar wyneb pob pysgodyn mae gwên gam a golwg ei fod wedi ymostwng i'w ffawd.

Parhaodd y gweithdy ym Matlock am saith mlynedd. Gwnaeth perchennog newydd oedd a'i fryd ar ail-ddatblygu, y symud i weithdy newydd yn anochel...

Mae'r hen felin Viyella y tu allan i Bonsall yn gartref i gymysgedd ryfedd o fusnesau. Mae chwistrellwr cyrff ceir, argraffydd a gwneuthurwr nicens ymhliith eraill, yn rhannu'r un adeilad. Un bychan yw'r gweithdy, dim ond 240 troedfedd sgwâr, ond fel y byddai unrhyw un sy'n adnabod Josie'n dda yn disgwyli, mae wedi ei drefnu'n dda. Mae'r arwynebau'n lân ac mae'r holl offer a'r cyfarpar yn eu mannau priodol. Does dim lle i lanastr.



Mae defnydd effeithiol o le ac o'r amser a bennwyd ar ei chyfer yn y gweithdy, yn golygu bod cynyrrch Josie yn bur doreithiog. Caiff yr odyn drydan 12 troedfedd giwbig ei llenwi a'i thanio oddeutu pob pedwar diwrnod ar ddeg. Llunir y potiau ar droell momentwm o waith cartref, a wnaeth Josie pan oedd hi yn y coleg, a defnyddir troell drydan fechan ar gyfer turnio achlysurol. Mae Josie'n hoffi llunio llond odyn o botiau ar y tro ac yna treulio tua deg diwrnod i gydosod, i addurno ac yn olaf i baratoi'r gwydredd crai.

"Fel rheol byddaf yn gwneud rhediad byr o un eitem fel y gallaf amrywio'r llun ar bob un. Byddaf yn ailadrodd lluniau, ond yn anaml y byddaf yn gwneud hynny yn ystod yr un tanio. Mae'r lluniau'n cyfateb i'r hyn sy'n digwydd o'm cwmpas ar y pryd - ymweld â'm rhieni ar yr arfordir, y cathod, blodau yn eu tymor, cynaeafu llyisiau ac ati."

Caiff y dysglau hirgrwn a sgwâr ar gyfer coginio a gweini eu llunio ar y droell yn ddau ddarn gwahanol ar adegau gwahanol. Caiff ochrau'r pot eu llunio'n gyntaf ac yna cânt eu rhoi o'r neilltu tra bydd y gwaelod yn cael ei lunio fel disg fflat. Caiff yr ochrau eu codi a'u gosod ar y gwaelod ar ôl iddo gael ei newid yn dringar i'w ffurf newydd, ac yna caiff y ddau eu hasio'n ddiogel tra maent yn dal yn bur feddal. Mae pob dysgl yn golygu cryn draul ar amser ac egni, gyda'r cydosod a'r addurno sy'n dilyn hynny yn cymryd llawer mwy o amser na'r broses o ffurio'r ddau ddarn ar y droell. Mae ei ffuriau newydd yn cynnwys yn ogystal gaserolau hirgrwn sy'n golygu tafelli gofalus ac ailasio'r caead, a thebot crwn cyfoethog ei ansawdd. Mae gwneud nifer fawr o botiau sy'n rhaid eu cydosod ac yna'r broses gymhleth a maith o'u haddurno, yn golygu bod ffordd drefnus a rheolaidd o fynd ynglyn â'r gwaith yn hanfodol.

Yn ddiweddar gwelwyd datblygiad newydd yng ngwaith Josie. Ni allaf ei alw'n gyfeiriad newydd mewn gwirionedd, oherwydd mai'r un yw'r defnyddiau a llawer o'r pynciau. Fodd bynnag, daeth bywiogrwydd newydd a chyffrous i'r amlwg yn sydyn yn ei haddurno.

Fel pe i gyflenwi'r arddull newydd, fwy egniol, mae bywyd newydd wedi ei anadlu i bynciau addurniadau Josie. O'r blaen roedd y delweddau yn cael eu llunio fesul haen drwy ddefnyddio system o stensiliau papur. Byddai haen derfynol o slip du yn gadael llinell ddu o gylch y ddelwedd i wahaniaethu rhngddo a'r cefndir ac i ychwaneu diffiniad.

Yn ei gwaith newydd mae Josie wedi defnyddio'r cryn fedrusrwydd sydd ganddi fel draftsmen i raddau heliethach o lawer. Gwelir yr hyder a'r rhwyddineb sy'n dod i'r sawl sydd wedi llwyr feistroli ei ddewis gyfrwng. Mae ganddi sylwgarwch craff a'r ddawni i greu digriflun nad yw byth yn troi'n gartŵn, ond sydd er hynny'n llwyddo i roi gwedd ddynol ar guwch iâr neu ar lygad trist, rhwth pysgodyn. Does dim amheuaeth nad yw'r iâr yn flin, mae'n eich herio i ddynesu ati ar boen eich bywyd gyda'i phig a'i chrafanc yn barod am ymladdfa. Mae cryn hiwmor yma. Nid hiwmor Disney mohono, mae'n galetach na hynny. I'r iâr mae goroesi yn fater o bwys, i mi mae'r olwg ar ei hwyneb yn gwneud i mi chwerthin, ond mae'r ddau ohonom yn gwybod beth fydd ei thynged yn y diwedda.

Ar hyn o bryd mae Josie'n cael trafferth i gwblhau'r holl botiau y gofynnir amdanynt. Mae galw mawr am ei gwaith, a hynny nid yn unig yn y wlad hon ond ar y cyfandir lle mae hi'n ymweld yn gyson â marchnadoedd crochenwaith anferth yn yr Iseldiroedd a Ffrainc. Er 1988 bu'n aelod o Gyngor Rheoli Cymdeithas y Crochenyddion Crefft a hi yw'r is-gadeirydd ar hyn o bryd. Mae hi hefyd yn athrawes wych. Rwyf wedi ei gweld yn rhoi arddangosiad i gynulleidfa o ddau gant ac yn eu dal yng nghledr ei llaw wrth iddi wneud ei thechnegau addurno cymhleth yn ddealladwy i newyddian hyd yn oed.

Mae'r casgliad hwn o waith diweddar yn cynrychioli dechreuaed gwedd newydd ar yrfa Josie. Ar hyn o bryd mae gweithdy newydd yn cael ei godi yng ngwaelod yr ardd ac wrth i Tom, ei mab deng mlwydd hi a Jonathan, ddod yn fwyfwy annibynnol bydd y gweithdy newydd a'r amser ychwanegol yn dod â phosibiliadau cyffrous pellach yn eu sgil. Gallaf dystio'n bersonol fod cael ei photiau o gwmpas y gegin yn ei wneud yn lle siriolach i fod ynddo. Mae prydua bwyd yng nghwmni gwesteion yn bleser wrth i'r bwyd raddol ddiflannu gan roi cyfle i geisio dyfalu beth fydd yn cael ei amlygu ar waelod y llestr!



Keith Morris